# Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Heddlu Dyfed Powys

# Adroddiad ar yr Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant

Hydref 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2024 WG49092 ISBN Digidol 978-1-83577-360-4

# Cyflwyniad

Rhwng 16 ac 20 Hydref 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhowys.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol ym Mhowys.

**Cwmpas yr arolygiad**

Fel rhan o'r Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (ACDAP), adolygwyd y canlynol:

- yr ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeuluso ar yr adeg y cânt eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- y trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r gwaith hwn
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau'r arolygiad ar y cyd. Rydym yn cyfeirio at sawl term drwy gydol yr adroddiad ac fe'u diffinnir fel a ganlyn:

## Term neu Ymadrodd

**ACEs** - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**CAMHS** - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

**CASPP** - Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth

**CLA** - Plant sy'n Derbyn Gofal

**CME** - Plant sydd ar goll mewn addysg

**CP/ CPR** - Amddiffyn Plant/ Y Gofrestr Amddiffyn Plant

**CRU** - Uned atgyfeirio ganolog (yr heddlu)

**DPP** - Heddlu Dyfed Powys

**DSL** - Arweinydd Diogelu Dynodedig yw'r unigolyn a gaiff ei benodi i fod yn bennaf cyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion.

**EHE** - Addysg ddewisol yn y cartref

**ELSA** - Rhaglen ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol a gaiff ei chyflwyno gan staff hyfforddedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yw Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol.

**ESR** - Cofnod Staff Electronig

**FCC** - Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu

**FCR** - Ystafell Reoli'r Heddlu

**IAA** - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

**IRO** - Swyddogion Adolygu Annibynnol

**MARAC** - Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth yw MARACau. Maent yn gyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol a gynhelir er mwyn trafod sut i helpu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i drais neu gam-drin domestig.

**MIU** - Uned Mân Anafiadau

**NICHE** - System cudd-wybodaeth a gwybodaeth yr heddlu

**Ymgyrch Encompass** - Mae Ymgyrch Encompass yn bartneriaeth rhwng yr heddlu ac ysgolion. Dim ond os bydd yr heddlu lleol eisoes wedi ymaelodi ag Ymgyrch

Encompass y gall ysgol ymuno. Un o egwyddorion Ymgyrch Encompass yw y dylid rhannu pob digwyddiad lle ceir achos o gam-drin domestig ag ysgolion, nid dim ond y digwyddiadau hynny lle y gellir nodi trosedd.

**CS Powys neu ALl Powys** - Cyngor Sir neu Awdurdod Lleol Powys

**Protocol Philomena** - Cytundeb rhwng yr awdurdod lleol, yr heddlu a darparwyr gofal preswyl i blant ynghylch y camau i'w dilyn gan staff gofal os byddant yn pryderu nad yw plant gartref.

**PPN** - Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd

**BIAP** - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**PRUDIC** - Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod.

**Adran 47 (A47)** - O dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny.

**SoS** - Dull o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant yw Arwyddion Diogelwch sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac sydd wedi'i drefnu ar sail diogelwch. Fe'i crëwyd drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth ddatblygu diogelwch ystyrlon i blant sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg.

**TAC** - Nod model y Tîm o Amgylch y Clwstwr (TAC) yw helpu ysgolion i nodi a chefnogi teuluoedd yn gynt pan fydd yr angen yn codi drwy gydweithio â phartneriaid allweddol.

**UASC** - Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches

**WSP** - Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

## 1. Crynodeb

Mae gan sefydliadau diogelu ym Mhowys systemau a threfniadau ar waith i gydweithio'n effeithiol mewn achosion lle yr ystyrir bod plant yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae uwch-arweinwyr yn yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r byrddau iechyd yn dangos dull gweithredu ar y cyd mewn perthynas â threfniadau diogelu rhanbarthol. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol iawn o drefniadau cydweithio amlasiantaethol.

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod asiantaethau yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol, gan arwain at atgyfeiriadau priodol at wasanaethau plant. Fodd bynnag, gall y systemau cofnodi gwahanol sydd ar waith yn y bwrdd iechyd weithiau ei gwneud hi'n anodd i staff ddod o hyd i wybodaeth ddiogelu berthnasol a'i rhannu. Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd. Mae canllawiau defnyddiol ar drothwyon rhanbarthol yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddadansoddi risgiau wrth gyflwyno atgyfeiriad, neu'r ddyletswydd i adrodd. Yn gyffredinol, mae cyd-ddealltwriaeth o sut i ymateb i niwed yn amlwg ar draws yr asiantaethau partner.

Caiff cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth eu croesawu. Ceir lefelau cynrychiolaeth dda a chyfraniadau da gan bartneriaid allweddol mewn trafodaethau strategaeth, cyfarfodydd a chynadleddau achos. Fel arfer, caiff camau gweithredu eu cymryd o fewn terfynau amser priodol, ac mae cymorth a chamau amddiffyn ar waith i ddiwallu anghenion plant. Mae cyfraniad amlasiantaethol yn amlwg wrth ymdrin â diogelwch plant drwy gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth (CASPP).

Mae ysgolion ledled Powys yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o wasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd. Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys y cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol a'r cynadleddau adolygu achos amddiffyn plant, yn ogystal â grwpiau craidd. Roedd rhieni yn canmol cymorth gan ysgolion ac mae llesiant a diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth uchel ym mhob ysgol.

Yn yr un modd â llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae'r gallu i recriwtio a chadw aelodau allweddol o staff yn effeithio ar drefniadau diogelu plant. Mae'r galw uchel am wasanaethau a chymhlethdod cynyddol anghenion plant a theuluoedd yn ychwanegu at hyn. O ran y gwasanaethau cymdeithasol, mae staff asiantaeth wedi gwella cydnerthedd y gweithlu, ond mae cynlluniau ar waith, sydd wedi bod yn gymharol lwyddiannus, i fynd ati mewn ffordd ddiogel i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth a gwneud penodiadau parhaol.

# 2. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

## 2.1 Llesiant

**Trefniadau Partneriaeth**

**Cryfderau**

Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi'r plant y mae angen help a threfniadau amddiffyn arnynt yn gywir. Mae'r sefydliadau diogelu yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol er mwyn diwallu'r anghenion hyn, yn enwedig lle caiff risg acíwt ei nodi. Er enghraifft, gwelsom ymarferwyr yn trefnu cyfarfodydd strategaeth ac ymweliadau â phlant ar fyr rybudd er mwyn sicrhau eu lles. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn mynychu trafodaethau strategaeth cychwynnol yn aml. Roedd gan y gwaith cynllunio dilynol bwyslais penodol ac roedd yn seiliedig ar brosesau da ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau.

Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r partneriaid yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant yn dda. Mae cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant yn fforymau effeithiol i rannu gwybodaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Caiff gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn ei chofnodi ar systemau'r heddlu er mwyn gallu ei defnyddio wrth ymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn monitro ac adolygu diogelwch yn barhaus.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Mae proses glir ar waith i helpu gweithwyr proffesiynol i wneud atgyfeiriadau diogelu sy'n ymwneud â phlant. Fodd bynnag, ni chaiff atgyfeirwyr eu hysbysu'n gyson am y canlyniad neu am y rhesymeg sy'n sail i benderfyniadau dilynol. Ar ôl cwblhau ymholiad Adran 47, ni chaiff cyfarfodydd strategaeth bob amser eu trefnu i drafod y canlyniad. Gall hyn olygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i rannu gwybodaeth hanfodol ac i drafod canlyniad yr ymholiad.  Nid yw hyn yn unol â disgwyliadau Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Caiff lleisiau, dymuniadau a theimladau plant eu hyrwyddo gan weithwyr proffesiynol mewn cynadleddau amddiffyn plant, ond anaml y gwneir hynny drwy ofyn i'r plant gyfrannu'n uniongyrchol at y gynhadledd.

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae'r llwybr ar gyfer archwiliad meddygol amddiffyn plant yn glir ac mae'r gweithwyr proffesiynol perthnasol yn ymwybodol ohono. Caiff pob adroddiad meddygol amddiffyn plant ei adolygu ar y cyd gan y meddyg diogelu enwebedig ac uwch-aelodau o'r tîm diogelu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod archwiliadau cyson yn cael eu cynnal gan bob gwasanaeth a gomisiynir. Cynlluniwyd menter newydd i drafod pob archwiliad meddygol amddiffyn plant mewn fforwm amlasiantaethol a disgwylir i'r fenter honno ddechrau ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn unol â Safonau'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

Caiff nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd eu hysbysu am blant sy'n mynd i Unedau Mân Anafiadau (MIU) ac os bydd pryderon, gall staff yr Uned edrych ar y systemau cofnodi i weld a yw'r plentyn wedi'i gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant (CPR).

Mae nyrsys ysgol yn cwblhau asesiad iechyd cyfannol pan fydd enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae cynrychiolwyr iechyd yn mynychu cyfarfodydd strategaeth, cynadleddau a chyfarfodydd grŵp craidd yn rheolaidd ac yn cyfrannu atynt. Caiff meddyg teulu'r plentyn ei wahodd i fynychu cynadleddau amddiffyn plant a rhoddir adborth iddo mewn perthynas â'i statws ar y gofrestr, argymhellion a chofnodion cynadleddau. Mae practisau meddygon teulu yn rhoi nodyn ar gofnodion plant y mae eu henw ar y gofrestr amddiffyn plant fel mater o drefn, ac mae'r tîm diogelu yn diweddaru'r system meddygon teulu y tu allan i oriau bob dydd. Mae meddygon teulu yn cyflwyno adroddiadau i gynadleddau, er bod hynny'n aml ar ffurf allbrint o ymgynghoriadau neu imiwneiddiadau.

Mae'r tîm diogelu yn rhannu gwybodaeth berthnasol a gaiff gan yr heddlu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allweddol a phractisau meddygon teulu. Ar y cyfan, mae meddygon teulu yn gwybod pa blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Roedd yr adroddiadau amddiffyn plant a welsom yn amserol ac yn briodol. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau diogelu allweddol a dogfennaeth ddilynol yn y cofnodion clinigol, ac roeddent yn cael eu diweddaru'n briodol. Roedd y staff gofal iechyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm diogelu i herio penderfyniadau ar ran plentyn pe byddai angen.

Roedd yn gadarnhaol nodi pan gaiff oedolyn ei dderbyn i wasanaethau iechyd meddwl y bwrdd iechyd, fel rhan o'r broses asesu gychwynnol, y rhoddir ystyriaeth i unrhyw blant sy'n gysylltiedig â'r claf, a ph'un a oes hanes o gam-drin domestig. Pan gaiff y claf ei ryddhau, trefnir Panel Galluogi Risg, sy'n cynnwys trafodaeth fel y bo'n

berthnasol am ddiogelwch unrhyw blant sydd o bosibl yn byw yng nghartref y claf neu'n ymweld ag ef. Mae hyn yn dangos dull rhagweithiol o reoli risg.

**Addysg**

Roedd rhieni yn canmol y cymorth maent yn ei gael gan ysgolion. Mae ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i lesiant a diogelwch disgyblion. Er enghraifft, mae ysgolion yn rhoi cymorth o ran gofal plant, hylendid personol disgyblion a thrwy ddarparu teithiau ysgol am ddim. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol yn cyfeirio at bwysigrwydd cydberthnasau iach a diogel, gan gynnwys sut i aros yn ddiogel ar-lein. Ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, roedd y disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel, eu bod yn cael gofal da a bod pobl yn gwrando arnynt. Gwnaeth pob un ohonynt roi enghreifftiau perthnasol o sut roedd staff yr ysgol yn eu cadw'n ddiogel ac yn meithrin eu dealltwriaeth o iechyd emosiynol ac iechyd meddwl cadarnhaol.

Mae ysgolion yn nodi eu bod yn cael cymorth a chyngor gwerthfawr gan y gwasanaethau plant wrth atgyfeirio pryderon newydd. Mae staff ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac y gallant herio penderfyniadau. Mae llawer o ysgolion yn nodi bod asiantaethau perthnasol yn yr awdurdod lleol yn mynd ati i rannu gwybodaeth â nhw pan fydd angen gwneud hynny. Caiff ysgolion eu cynrychioli'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyfarfodydd amlasiantaethol. Mae rôl yr Arweinydd Diogelu Dynodedig mewn ysgolion yn arbennig o effeithiol wrth bontio gwasanaethau plant ac addysg. Mae hyn yn sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu ag ysgolion a bod cymorth cyson ar gael i benaethiaid pan fydd ganddynt ymholiadau.

Mae prosesau a systemau wedi gwella'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae diwylliant diogelu cryfach ar lefel gorfforaethol ac ar lefel ysgolion. Mae'r gwasanaeth ysgolion yn cynnig cyswllt strategol rhwng yr awdurdod lleol cyfan ac ysgolion. Mae swyddogion addysg yr awdurdod lleol ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw dysgwyr yn ddiogel.

**Heddlu Dyfed Powys**

Mae'r heddlu yn cofnodi honiadau o droseddau sy'n effeithio ar blant ac yn eu dyrannu'n ddi-oed i swyddogion ymchwilio. Mae swyddogion ymchwilio yn llunio cynlluniau diogelu effeithiol ac yn defnyddio amodau mechnïaeth i amddiffyn plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Mae rheolwyr Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn monitro sampl o alwadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr asesiadau risg yn gywir a'u bod yn cael ymateb priodol. Mae rheolwyr y Ganolfan Gyfathrebu yn hyfforddi eu staff i ymchwilio i wybodaeth ar systemau'r heddlu er mwyn ategu eu penderfyniadau.

Mae system y Ganolfan Gyfathrebu yn nodi galwadau a digwyddiadau blaenorol sy'n gysylltiedig â chyfeiriadau. Mae'r system yn cynnwys marcwyr risg ar gyfer plant sy'n agored i niwed, fel y rhai hynny y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r wybodaeth hon yn helpu staff i ddyrannu lefel ymateb briodol. Mae'n golygu bod llawer o blant sy'n agored i niwed yn cael eu nodi yn ystod cam cynnar, a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei hanfon at y swyddogion sy'n ymateb i'r digwyddiad i'w helpu i asesu'r risg i'r plant, er enghraifft, y risg o gam-drin domestig. Mae marcwyr rhybudd ar y system yn tynnu sylw swyddogion at leoliadau pobl sy'n peri risg i blant, fel troseddwyr rhyw cofrestredig. Mae rheolwyr y Ganolfan Gyfathrebu yn cadarnhau bod y marcwyr hyn yn gywir. Ond gwelsom fod rhai marcwyr ar gyfer plant nad oedd eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant mwyach wedi'u cynnwys ar system yr heddlu o hyd.

Mae'r staff cudd-wybodaeth arbenigol yn y Ganolfan Gyfathrebu yn defnyddio gwybodaeth leol a chenedlaethol i gefnogi ymatebion rheng flaen lle y credir bod plant yn wynebu risg o niwed. Er enghraifft, y rhai hynny sydd ar goll, sy'n cael eu masnachu ac y mae pobl yn camfanteisio arnynt.

Nodwyd gennym nad oedd staff y Ganolfan Gyfathrebu yn atgoffa'r staff sy'n ymateb i'r digwyddiad fel mater o drefn i recordio llais y plentyn pan fyddant yn mynychu digwyddiad lle ceir achos o gam-drin domestig. Ond pan wnaethom godi'r mater hwn, aeth rheolwr y Ganolfan Gyfathrebu ati ar unwaith i gyhoeddi canllawiau newydd i'r staff yn cynnwys cyfarwyddiadau yn eu hatgoffa i ddefnyddio eu dyfais fideo a wisgir ar y corff ac i gofio y dylid recordio llais y plentyn.

Mae'r Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cefnogi cynllun lle mae gweithwyr ieuenctid yn cwblhau cyfweliadau dychwelyd adref â phlant sydd wedi bod ar goll. Defnyddir y wybodaeth y bydd y plant yn ei rhoi i'r gweithwyr ieuenctid i ddiweddaru cynlluniau rheoli risg ar gyfer y plant hyn.

**Gwasanaethau Plant**

Mae ymarferwyr medrus yn asesu sefyllfaoedd yn effeithiol, gan bwyso a mesur yr hyn sy'n gweithio'n dda i blant ag unrhyw risgiau a phryderon, a chan olrhain newid a chynnydd yn ofalus. Gwelsom dystiolaeth gyson o waith uniongyrchol gyda theuluoedd, gan gynnwys cyfarfodydd rhwydwaith teulu wedi'u trefnu'n dda er mwyn cefnogi pobl. Mae swyddi arloesol wedi'u creu o'r newydd, fel swyddogion llesiant, yn hwyluso'r broses o roi cynlluniau gofal a chymorth ar waith.

Mae asesiadau plant yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyd-destun hanesyddol a sefyllfaol. Caiff sefyllfaoedd cymhleth teuluoedd eu deall yn dda a'u dogfennu mewn adroddiadau. Mae cynlluniau gofal a chymorth yn defnyddio gwasanaethau cymorth mewn ffordd gadarnhaol. Mae ymarferwyr yn defnyddio crynodebau achos a chronolegau i feithrin dealltwriaeth o brofiad bywyd y plentyn.

Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau plant yn defnyddio'r dull Arwyddion Diogelwch mewn perthynas ag amddiffyn plant. Gellid gwneud gwelliannau i gefnogi'r model, gan gynnwys drwy gofnodion mwy cymesur sy'n nodi gwybodaeth am gryfderau a risgiau mewn ffordd gryno. Mae cynlluniau ar waith i adolygu'r ffurflenni amddiffyn plant er mwyn sicrhau eu bod yn fwy addas i blant ac er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â phlant a theuluoedd.

Pan na fydd y cynlluniau yn lleihau'r risg o niwed i blant yn ddigonol, gwneir penderfyniadau priodol i uwchgyfeirio'r achos. Mae rhieni yn cael llythyrau clir sy'n eu helpu i ddeall pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r plant aros yn ddiogel yn eu gofal cyn dechrau achosion llys o dan yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Gall y systemau cofnodi TG niferus a ddefnyddir yn y bwrdd iechyd ei gwneud hi'n anodd i staff ddod o hyd i wybodaeth ddiogelu berthnasol a rhannu'r wybodaeth honno mewn ffordd amserol. Roedd 40% o'r 114 o ymatebion a gafwyd i'r arolwg staff gofal iechyd yn cefnogi hyn. Mae'n golygu bod risg y gellid colli gwybodaeth allweddol, neu y gallai penderfyniadau amlasiantaethol gael eu gwneud heb yr holl wybodaeth iechyd perthnasol.

**Addysg**

Mae'r ffaith bod ysgolion bellach yn cwblhau archwiliadau diogelu blynyddol yn gadarnhaol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wrthi'n dechrau datblygu prosesau sicrhau ansawdd. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella effeithiolrwydd yr archwiliadau ysgol hyn er mwyn ysgogi gwelliannau. Er enghraifft, cysylltu'r ffigurau ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol â'r archwiliad diogelu.

Nododd nifer bach o benaethiaid nad ydynt yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan mewn trafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth i drafod eu disgyblion. Nododd rhai ysgolion er bod yr heddlu yn defnyddio Ymgyrch Encompass mewn modd systemataidd i rannu gwybodaeth am achosion o gam-drin domestig, nad yw bob amser yn rhannu gwybodaeth am droseddau y mae eu disgyblion yn gysylltiedig â nhw yn y gymuned.

Mewn nifer bach iawn o achosion, nid oes gan weithwyr proffesiynol rheng flaen yn y gwasanaethau plant ddealltwriaeth ddigon clir o'r ffordd y mae ysgolion yn gweithio. Yn hyn o beth, byddai gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol ar y cyd yn atgyfnerthu'r gydberthynas waith rhwng yr holl weithwyr proffesiynol ymhellach.

**Heddlu Dyfed Powys**

Mae staff sy'n gweithio mewn cartrefi plant yn rhoi gwybod i'r heddlu yn rheolaidd am blant sydd ar goll. Yn aml, mae'r un plentyn yn mynd ar goll dro ar ôl tro. Gofalwyr y plant sy'n gyfrifol am wneud yr ymholiadau cychwynnol er mwyn dod o hyd i blant nad ydynt wedi dychwelyd adref. Ond yn rhy aml, ni chaiff yr ymholiadau sylfaenol hyn eu cwblhau cyn iddynt roi gwybod i'r heddlu bod y plentyn ar goll. Mae protocol Philomena[1] yn anghyson ac nid yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol ym Mhowys.

Gall rhoi gwybod i'r heddlu yn amhriodol bod plant wedi mynd ar goll stigmateiddio plant sy'n derbyn gofal, sy'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol gan weithwyr proffesiynol. Mae hefyd yn dargyfeirio amser ac adnoddau'r heddlu rhag gallu ymdrin â digwyddiadau risg uchel eraill. Mewn ardaloedd eraill lle rhoddwyd protocol Philomena ar waith, mae nifer yr achosion lle rhoddir gwybod i'r heddlu bod plant sy'n derbyn gofal wedi mynd ar goll wedi lleihau hyd at draean.

Mae polisi'r heddlu ar gyfer cofnodi gwybodaeth am blant sydd ar goll ar hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd (PPN) yn anghyson. Ym mis Hydref 2023, ni wnaeth staff gwblhau hysbysiad amddiffyn y cyhoedd ar gyfer 43 o'r 73 o blant a oedd ar goll. Mae hynny'n golygu, mewn gormod o achosion, na chaiff gwybodaeth a all helpu'r heddlu i ddod o hyd i blentyn yn gyflym ei chofnodi ar systemau'r heddlu na'i rhannu â phartneriaid diogelu.

**Gwasanaethau Plant**

Nid yw plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant bob amser yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain yn unol â'r disgwyliadau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Gwelsom enghreifftiau lle roedd ymweliadau amddiffyn plant yn bennaf yn ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd; mae'n bwysig bod rhai ymweliadau yn ddirybudd er mwyn rhoi darlun cytbwys o ansawdd bywyd y plentyn.

Prin oedd y dystiolaeth a welsom i gadarnhau bod y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddarparu'n gyson, ac eithrio yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf drwy'r ymateb wedi'i awtomeiddio. Cawsom wybod gan reolwyr fod ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff dewis iaith pobl ei gofnodi a'i hwyluso. Nodwyd ymarfer amrywiol gennym mewn perthynas â chofnodi ac ystyried ethnigrwydd a chrefydd plentyn, ac mewn perthynas â chofnodi manylion yr unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

[1] **Protocol Philomena:** Cytundeb rhwng yr awdurdod lleol, yr heddlu a darparwyr gofal preswyl i blant ynghylch y camau i'w dilyn gan staff gofal os byddant yn pryderu nad yw plant gartref.

## 2.2 Pobl

### Trefniadau partneriaeth

### Cryfderau

Mae arweinwyr a rheolwyr yn deall maint yr angen a'r risg yn eu hardal. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o brofiadau plant a theuluoedd y mae angen help arnynt, ac maent yn cydweithio i gynllunio'n strategol ar eu cyfer. Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn amlwg ar lefel weithredol, yn enwedig pan fydd plant yn cael eu gweld yn yr ysgol.

Gwelsom fod gweithwyr proffesiynol cymwys a phrofiadol yn gweithio ym maes amddiffyn plant ym Mhowys. Er gwaethaf cyd-destun y cynnydd o ran nifer yr achosion a chymhlethdod y gwaith, gwelsom fod cydberthnasau gweithredol da ar waith. Ceir ymrwymiad i wella'n barhaus ac mae prosesau craffu a dysgu cadarn ar waith. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau ymarfer plant trylwyr, trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ac ymdrechion i hyrwyddo diwylliant o ddysgu parhaus ac o fod yn agored.

Mae'r heddlu a sefydliadau diogelu eraill yn gweithio'n effeithiol mewn sawl cyfarfod rheoli risg amlasiantaethol sy'n seiliedig ar themâu gwahanol. Er enghraifft, y cynadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC) ar gyfer cam-drin domestig, y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) ar gyfer troseddwyr rhywiol a threisgar, y cyfarfod camfanteisio amlasiantaethol (MACE) a chyfarfod wythnosol i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â phlant sydd ar goll.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Bu cynnydd mawr yn y boblogaeth o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn y rhanbarth ac rydym o'r farn y gallai hyn beri risg i rai o'r plant hyn. Mae canllawiau addysg ddewisol yn y cartref[2] Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r amcan pennaf i asiantaethau, sef sicrhau y caiff datblygiad y plant hyn ei ddiogelu rhag niwed sylweddol. Mae'r maes hwn yn gofyn am ymateb amlasiantaethol er mwyn gallu sicrhau diogelwch plant pan fydd y trefniadau hyn ar waith.

Mae'r heddlu yn cyfrannu at rai archwiliadau amddiffyn plant amlasiantaethol. Un enghraifft o hyn yw'r archwiliad o ddigwyddiadau lle cafodd plant eu cymryd gan yr heddlu er mwyn eu hamddiffyn ledled ardal Canolbarth Cymru. Mae angen cwblhau archwiliadau amlasiantaethol yn rheolaidd er mwyn lledaenu'r ymarfer da rydym wedi'i weld gan rai asiantaethau yn y maes hwn.

[2] Canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref (llyw.cymru)

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Oherwydd ei leoliad daearyddol, mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu ei holl ofal trydyddol. Fel rhan o'r contract gyda'r gwasanaeth a gomisiynir, mae tîm diogelu'r bwrdd iechyd yn nodi'r prosesau diogelu sylfaenol a ddisgwylir ar gyfer ei boblogaeth gan ddefnyddio gwasanaethau trawsffiniol.

Mae'r bwrdd iechyd yn dangos ymrwymiad llwyr i weithio mewn partneriaeth ym mhob maes diogelu, a hynny ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Mae tîm diogelu'r bwrdd iechyd yn adnodd gwerthfawr, sy'n cynnig cymorth, cyngor, goruchwyliaeth a hyfforddiant i staff. Cefnogwyd hyn gan bron i 96% o'r 114 o staff gofal iechyd a gymerodd ran yn yr arolwg, a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi pan fydd ganddynt bryder am ddiogelwch neu lesiant plentyn.

Nodwyd gennym hefyd fod y bwrdd iechyd yn ymateb mewn ffordd ragweithiol i'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer, fel Adolygiadau Plant, Adolygiadau Oedolion ac Adolygiadau o Ddynladdiadau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cylchlythyrau, fideos hyfforddi ac ehangu ymchwiliadau cyffredinol i achosion o gam-drin domestig i glinigau iechyd rhywiol ac unedau mân anafiadau. Caiff pob atgyfeiriad gan staff gofal iechyd ei anfon i'r tîm diogelu er gwybodaeth ac er mwyn ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd. Mae'r tîm diogelu yn cynnig cymorth drwy sesiwn dadfriffio lle bydd aelodau o staff yn mynychu cyfarfodydd Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDIC) a thrwy atgyfeirio achosion i gael cymorth allanol drwy'r sefydliad trydydd sector 2wish.

Mae'r bwrdd iechyd yn dangos ymrwymiad i wella'n barhaus, sy'n amlwg drwy'r prosesau craffu a dysgu sydd ar waith. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, pryderon, adroddiadau a'r gwersi a rennir sy'n deillio ohonynt. Mae gan gyfarfodydd gweithredol a strategol strwythur llywodraethu clir, sy'n cynnwys trefniadau monitro effeithiol mewn perthynas â gwelliannau a chamau gweithredu, ac yn gyffredinol, cânt eu cwblhau o fewn yr amserlenni priodol.

Nodwyd gennym fod llais y plentyn, ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu nodi yn y cofnodion gofal iechyd. Mae sawl menter ar waith i gofnodi llais y plentyn. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys rhoi codau QR i blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr eu defnyddio i roi adborth ar eu profiadau, a mentrau sy'n gysylltiedig â nyrsys ysgol, gan gynnwys ‘CHAT’, lle gall pobl ifanc anfon neges destun at nyrs yr ysgol i gael cyngor a chymorth.

Roedd y cofnodion plant a welsom yn cynnwys genogramau[3] a chronolegau, ac roedd yr asesiadau gofal iechyd yn nodi crefydd, ethnigrwydd a mamiaith y plentyn. Roedd tystiolaeth i ddangos bod aelodau o'r staff yn ceisio diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y plant, a gwelsom enghreifftiau o ymdrechion cadarnhaol i gynnwys aelodau'r teulu a rhwydweithiau cymorth ehangach wrth wneud penderfyniadau am blant.

**Addysg**

Mae gan y Cyfarwyddwr Addysg weledigaeth glir, strategol ac ystyrlon i sicrhau bod ysgolion yn cynnig amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol i blant a phobl ifanc Powys. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth. Mae'r flaenoriaeth uchel a roddir i ddiogelu ym mhob rhan o'r awdurdod lleol wedi atgyfnerthu'r ddealltwriaeth fod pawb yn gyfrifol amdano.

Ers ailstrwythuro'r uwch-reolwyr, mae eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae hyn yn galluogi trefniadau gweithio effeithiol sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r swyddogion sydd ar gael i'r awdurdod lleol. Mae'r Prif Weithredwr interim yn rhoi blaenoriaeth uchel ar ddiogelwch a llesiant disgyblion. Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Addysg a phenaethiaid gwasanaeth, llwyddir i gynnal ffocws clir ar ddiogelu. Mae'r aelod etholedig arweiniol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu ac yn ymrwymedig iddo fel ffocws allweddol i'r awdurdod lleol.

Datblygwyd gwaith buddiol, er enghraifft, o amgylch Plant sy'n Colli Addysg (CME), a gafodd ei ategu gan y polisi Plant sy'n Colli Addysg a gwblhawyd ym mis Medi 2023. Mae'r polisi yn cynnwys gwybodaeth bwrpasol sy'n helpu i wella ymwybyddiaeth o'r prosesau ar gyfer Plant sy'n Colli Addysg ac i sicrhau y rhoddir gwybod am achosion ac y cânt eu datrys yn briodol.

Mae arweinwyr ysgolion yn hyderus ynghylch y cymorth a'r canllawiau diogelu a gânt gan yr awdurdod lleol. Atgyfnerthwyd y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ddiweddar, ac o ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi disgyblion a theuluoedd yn fwy effeithiol. Er enghraifft, mae ysgolion o'r farn bod dull y Tîm o Amgylch y Clwstwr (TAC) yn gryfder. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a'r cyngor gan reolwr diogelu addysg yr awdurdod lleol a'r tîm diogelu ehangach. Cafodd gallu'r gwasanaeth hwn ei atgyfnerthu ymhellach yn ddiweddar ac mae ysgolion yn ei ganmol yn fawr.

---

[3] **Genogram –** I bob pwrpas, coeden deuluol sy'n cynnwys manylion dwy neu dair cenhedlaeth. Mae'n adnodd gweledol effeithiol sy'n helpu ymarferwyr a theuluoedd i ddeall cydberthnasau teuluol. Gan ddefnyddio symbolau sefydledig a llinellau cysylltiol, mae aelodau'r teulu yn gweithio gydag ymarferwyr i ddatblygu cynrychioliad graffigol o strwythur mewngenhedlaeth a rhyng-genhedlaeth eu teulu. Diogelu Cymru

Mae staff ysgolion yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu rheolaidd ar y lefelau priodol, ac mae hyn fel arfer yn cynnwys y llywodraethwyr. Mae staff perthnasol mewn ysgolion hefyd yn cael hyfforddiant amddiffyn plant, hyfforddiant ATAL a hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae arweinwyr diogelu dynodedig ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth, y canllawiau a'r cyfleoedd hyfforddi a gynigir gan yr awdurdod lleol yn fawr. Er enghraifft, yr hyfforddiant i staff cymorth ar gwblhau ffurflenni atgyfeirio amlasiantaethol.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i bob llywodraethwr a phob aelod etholedig ymgymryd â hyfforddiant diogelu. O ganlyniad, maent yn deall y trefniadau diogelu yn well ac maent mewn sefyllfa well i gynnig cymorth a her yn eu hysgolion. Mae llywodraethwyr yn dechrau chwarae mwy o ran ym mhrosesau'r adnodd archwiliadau diogelu yn eu hysgolion. Lle ceir ymarfer effeithiol, gall llywodraethwyr sicrhau bod eu hysgolion yn atebol am roi cynllun gweithredu'r archwiliad diogelu ar waith.

**Heddlu Dyfed Powys**

Mae arweinwyr yr heddlu yn deall pwysigrwydd sicrhau bod eu staff yn siarad â phlant ac yn recordio eu lleisiau. Roedd yn galonogol nad oedd unrhyw gofnodion yr heddlu a welsom yn cynnwys iaith a oedd yn beio'r dioddefwr.

Mae un o uwch-arweinwyr yr heddlu yn cadeirio'r cyfarfod rheoli dyddiol. Mae'n edrych ar ddigwyddiadau a chofnodion cam-drin domestig er mwyn gweld a yw lleisiau'r plant wedi cael eu recordio. Mae hefyd yn craffu ar ymatebion diweddar yr heddlu i ddigwyddiadau risg uchel, troseddau a bregusrwydd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a'r galluoedd angenrheidiol ar gael.

Mae goruchwylwyr yr heddlu yn archwilio rhai ymchwiliadau a hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd bob mis. Caiff y canlyniadau eu hadolygu gan reolwyr a chaiff unrhyw gamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen eu dyrannu i staff. Mae'r archwiliadau hyn yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd y gwasanaethau diogelu a'r ffocws ar ganlyniadau i blant. Ond ar hyn o bryd, mae'r niferoedd bach a gaiff eu harchwilio yn cyfyngu buddiannau cadarnhaol yr arfer hwn.

Mae staff arbenigol yn uned atgyfeirio ganolog (CRU) yr heddlu yn ymchwilio i systemau'r heddlu er mwyn cwblhau asesiadau risg. Mae'r uned yn dilyn y polisi trothwy amlasiantaethol i atgyfeirio achosion at sefydliadau diogelu eraill. Mae'r broses yn effeithiol, ac ni nodwyd unrhyw achosion gennym o oedi wrth rannu gwybodaeth â sefydliadau eraill am blant yr oedd angen help arnynt.

Pan fydd swyddogion yn penderfynu y dylid rhoi amddiffyniad yr heddlu i blant, caiff cyfarfod strategaeth bob amser ei gynnal. Yn ystod y nos, bydd arolygwyr yr heddlu yn cynnal y cyfarfodydd hyn â staff tîm dyletswydd brys yr awdurdod lleol, gan sicrhau bod dull gweithredu amlasiantaethol ar waith er mwyn diogelu'r plant hyn.

Ond weithiau, ceir oedi wrth ddod o hyd i lety addas i'r plant hyn sy'n golygu eu bod yn cael eu cadw yn un o orsafoedd yr heddlu am gyfnod rhy hir. Mae'r uned

atgyfeirio ganolog yn adolygu'r holl ddigwyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y plant yn parhau'n ddiogel hyd nes y caiff y digwyddiad ei ddatrys.

Mae goruchwylwyr yr uned yn cynnal cyfarfodydd strategaeth amserol â staff yr awdurdod lleol a staff iechyd. Os cytunir y dylid cynnal ymchwiliadau ar y cyd, cânt eu dyrannu i ymchwilwyr a fydd wedyn yn cynnal cyfarfodydd strategaeth pellach â gweithwyr proffesiynol lleol o sefydliadau diogelu eraill. Ceir lefelau presenoldeb da yn y cyfarfodydd hyn ond nodwyd gennym nad oedd digon o ffocws ar y blaenoriaethau diogelu mewn rhai o'r cyfarfodydd.

Yn gadarnhaol, mae'r rhan fwyaf o dditectifs yn yr heddlu yn ymchwilwyr arbenigol ym maes cam-drin plant, gan ddilyn rhaglen ddatblygu'r Coleg Plismona ar gyfer ymchwilwyr arbenigol ym maes cam-drin plant.

**Gwasanaethau Plant**

Mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i gymorth corfforaethol ar gyfer gwasanaethau plant wrth ystyried y gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant. Mae hyn yn darparu gwelededd wrth gyflawni dyletswyddau ac ymateb i risgiau, ac yn meithrin dealltwriaeth o ansawdd profiadau plant. Mae arweinwyr a rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o ansawdd ymarfer gan eu bod yn defnyddio data digon manwl i graffu ar berfformiad. Mae uwch-arweinwyr yn gwerthuso perfformiad y gwasanaethau plant yn gywir gan ddefnyddio fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol. Mae trefniadau manwl ar gyfer dadansoddi perfformiad yn golygu y gall arweinwyr dargedu adnoddau lle bo'u hangen.

Mae uwch-reolwyr y gwasanaethau plant yn weladwy ac yn gefnogol. Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol wrth sôn am y cymorth y maent yn ei roi i'w gilydd a'r ethos tîm. Clywsom am enghreifftiau rhagorol o gymorth rhwng cydweithwyr, trefniadau goruchwylio anffurfiol a ffurfiol, a rheolwyr hygyrch y mae'n hawdd mynd atynt. Gwneir buddsoddiad clir mewn gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, ac mae swyddi rheoli penodedig yn rhan o'r strwythur er mwyn targedu cymorth i'r gweithwyr hyn. Mae seicolegydd clinigol ar gael i ymarferwyr yn yr awdurdod lleol. Gellir trafod sefyllfaoedd cymhleth fel tîm a cheir mewnbwn a goruchwyliaeth seicolegol er mwyn helpu i gefnogi ac uwchsgilio'r staff er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl.

Mae trefniadau goruchwylio rheolaidd ar waith ac mae'r trefniadau hyn yn hybu prosesau i sefydlu a datblygu'r staff a'u llesiant. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r trefniadau goruchwylio ar ffurf fyfyriol, gan ystyried y cyswllt rhwng ymchwil ac ymarfer, a chan hybu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Er bod tystiolaeth o ymrwymiad i ddiwylliant dysgu, mae lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu plant lefel 3 yn sylweddol is na'r targed cenedlaethol o 85%. Bydd ymarfer a gynhaliwyd yn ddiweddar i lanhau'r system staff electronig (ESR) yn helpu i sicrhau cywirdeb wrth gofnodi data cydymffurfiaeth, ond mae argaeledd y tîm diogelu i gynnal sesiynau hyfforddiant ychwanegol er mwyn bodloni'r galw yn broblem. Felly, dylid rhoi blaenoriaeth i geisio gwella mynediad at hyfforddiant diogelu lefel 3 a lefelau cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant hwnnw.

Mae'r trefniadau goruchwylio mewn perthynas â diogelu yn faes a nodwyd gan y bwrdd iechyd ei hun fel maes i'w wella. O ganlyniad, cyflwynwyd newid polisi yn ddiweddar er mwyn cynnal sesiynau goruchwylio grŵp bob 3 mis yn hytrach na bob 6 mis, er mwyn bod yn gydnaws â'r darlun cenedlaethol ehangach a helpu i wella cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, mae angen mwy o ffocws ar sicrhau y caiff y ffactorau sbardun ar gyfer sesiynau goruchwylio unigol eu defnyddio, fel yr amlinellir ym mholisi'r bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau bod y tîm diogelu yn goruchwylio ac yn craffu ar unigolion sy'n cyrraedd y trothwy hwn.

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod ei gyfrifoldebau diogelu yn ehangu'n barhaus, er enghraifft drwy'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd, a'r ffaith bod yr uchafswm ar niferoedd y plant digwmni sy'n ceisio lloches (UASC) wedi cael ei ddiddymu. Bydd angen monitro effaith y newidiadau hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r gofynion hyn.

Mae angen i dîm diogelu'r bwrdd iechyd godi ymwybyddiaeth o'r ffactorau sbardun ar gyfer gwneud cais am sesiynau goruchwylio penodol un-i-un fel rhan o achosion cymhleth, lle ceir achos o wyro neu gydymffurfiaeth gudd yn unol â pholisi goruchwylio diogelu BIAP.

**Addysg**

Mae angen atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer monitro plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (EHE) sy'n destun trefniadau gweithio amlasiantaethol, gan fod y broses o'u datblygu ar gam cynnar o hyd.

Ar hyn o bryd, mae diffyg cyfleoedd rheolaidd, wedi'u hwyluso gan yr awdurdod lleol, i arweinwyr diogelu dynodedig (DSL) ysgolion gyfarfod er mwyn cefnogi ei gilydd, rhannu ymarfer effeithiol a phryderon.

**Heddlu Dyfed Powys**

Mae archwiliadau'r heddlu yn canolbwyntio ar ymchwiliadau amddiffyn plant a cham-drin domestig. Caiff yr archwiliadau hyn eu hadolygu gan uwch-arweinwyr. Ond byddai o fudd i'r heddlu ddatblygu ei ffocws ansoddol ymhellach. A rhoi diwylliant archwilio cryfach ar waith fel rhan o'i arferion rheoli cyffredinol.

Nid yw pob aelod o staff yr heddlu wedi cael hyfforddiant bregusrwydd. Nid yw staff rheng flaen sy'n ymateb i ddigwyddiadau bob amser yn siarad â'r plant. Felly, nid ydynt bob amser yn cofnodi gwybodaeth am ymarweddiad, profiadau bywyd a dymuniadau'r plant hyn.

Nodwyd gennym nad oedd goruchwylwyr yr heddlu bob amser yn cyfarwyddo ymchwiliadau yn effeithiol. Mae nodiadau goruchwylio yn y cofnodion, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio ar y risg i'r plant. Er enghraifft, o ganlyniad i ddigwyddiadau mynych neu lle y dylid uwchgyfeirio camau diogelu. Caiff rhai ymchwiliadau eu cau heb ystyried gwybodaeth am y risgiau i bob plentyn a heb rannu'r wybodaeth honno â sefydliadau diogelu eraill.

Gwelsom enghreifftiau o anghysondeb yn y ffordd y caiff gwybodaeth am blant ei chofnodi gan staff ar hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd. Roedd rhai yn cynnwys llais y plentyn, ethnigrwydd, risg a bregusrwydd. Ond nid oedd rhai aelodau o staff yn nodi effaith pob ffactor bregusrwydd, fel anabledd, ar brofiad bywyd y plentyn.

Ni chaiff hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd eu defnyddio'n gyson pan fydd y cyflawnwyr yn blant. Mewn un achos, roedd plentyn yr oedd ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cael ei gam-drin yn hiliol gan blant eraill. Ni chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi fel trosedd ar wahân, nac ar hysbysiad amddiffyn y cyhoedd, a'i rhannu â sefydliadau eraill.

Mae methu â chofnodi bregusrwydd ar hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd hefyd yn golygu nad yw'r uned atgyfeirio ganolog yn nodi gwybodaeth berthnasol arall nac yn hysbysu sefydliadau eraill am y risgiau i blentyn. Nid oedd rhai hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd yn cynnwys plant eraill a oedd yn rhan o'r teulu yr oedd y digwyddiad wedi effeithio arnynt.

**Gwasanaethau Plant**

Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'r heriau wrth recriwtio a chadw staff wedi effeithio ar drefniadau amddiffyn plant. Rydym yn cydnabod y llwyddiannau diweddar wrth benodi unigolion i swyddi rheoli parhaol, ond rydym yn gwbl ymwybodol o'r her sy'n gysylltiedig â symud oddi wrth y ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth. Mae'n galonogol bod y llwythi gwaith yn hydrin, ac nad oes unrhyw blant heb eu dyrannu.

Ar sail gymesur, dim ond nifer bach o blant a phobl ifanc sy'n mynychu eu cyfarfodydd amddiffyn plant. Mae angen ystyried y rhesymau dros hyn ymhellach. Dylid croesawu'r ffocws ar yr agenda gyfranogi, gan gynnwys ap Momo, y defnydd o wasanaethau eirioli a chyfarfodydd rhwydwaith teuluol. Ar lefel strategol, mae angen

datblygu'r agenda gyfranogi ymhellach er mwyn cynnig cyfleoedd ystyrlon i blant gyfrannu at y broses o ddylunio gwasanaethau.

## 2.3 Partneriaethau ac Integreiddio

**Trefniadau Partneriaeth**

**Cryfderau**

Mae Powys yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn chwarae rhan arweiniol mewn perthynas â sawl agwedd ar ei waith, er enghraifft, y strategaeth cam-fanteisio ranbarthol a'r is-grŵp hyfforddi. Mae cydberthnasau bellach wedi ymsefydlu'n gadarn a cheir cyfrifoldebau arwain clir ar draws yr asiantaethau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Er enghraifft, mae prif gwnstabl cynorthwyol yr heddlu yn mynychu cyfarfodydd gweithredol y Bwrdd Diogelu ac yn cadeirio bwrdd bregusrwydd strategol yr heddlu. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau strategol wedi'u llywio gan wybodaeth gan yr heddlu a phartneriaid ac yn ystyried blaenoriaethau amlasiantaethol. Mae'r Bwrdd Diogelu Iau (CYSUR) yn cynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy gyfrannu lleisiau plant mewn modd gweithredol ar lefel strategol.

Mae llawer o enghreifftiau o waith amlasiantaethol arloesol ym Mhowys. Er enghraifft, rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd â threfniadau rhagweithiol gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac adnoddau ar gyfer tîm therapiwtig newydd ar y cyd. Mae sefydliad hefyd wedi cael ei gomisiynu'n effeithiol i gwblhau'r cyfweliadau dychwelyd adref i blant sydd wedi bod ar goll, sy'n fanwl ac yn ystyrlon.

Ar bob lefel, gwelsom gydberthnasau gwaith proffesiynol cadarn a sefydledig ym maes amddiffyn plant. Wrth ymateb i'r arolwg staff gofal cymdeithasol, nododd 47 o ymarferwyr fod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol neu'n dda (71%), gyda 25% yn nodi eu bod yn ddigonol. Mae gan yr awdurdod lleol rwydwaith cymorth proffesiynol sy'n cynnig arbenigedd, gwybodaeth, cymorth a her adeiladol iddo. Nodwyd gennym fod cofnodion amddiffyn plant manwl yn cael eu cadw gan bob asiantaeth. Mae rhanddeiliaid allweddol yn rhannu gwybodaeth werthfawr yn ystod cyfarfodydd strategaeth, grwpiau craidd a chynadleddau.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylid cynyddu amlder hyfforddiant amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith o ran ymarfer diogelu. Nid yw staff yr heddlu yn cael cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant diogelu amlasiantaethol mwy rheolaidd. Mae arbenigwyr pwnc nad ydynt yn gysylltiedig â'r heddlu, fel arbenigwyr cam-drin domestig, yn cyfrannu weithiau at hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus, ond

byddai hyfforddiant ar y cyd o fudd iddynt. Croesawyd yr hyfforddiant amlasiantaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ar bynciau fel chwilfrydedd proffesiynol.

Mae'r Bwrdd Diogelu yn cwmpasu ardaloedd pedwar awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd ac mae ganddo ganllawiau trothwy rhanbarthol y bwriedir eu hadolygu'n fuan. Mae sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r trothwy ar gyfer niwed sylweddol yn faes i'w atgyfnerthu. Yn ôl adborth a gafwyd gan dîm diogelu BIAP, anaml y bu angen defnyddio'r protocol anghydfodau sydd ar waith, os o gwbl, gan fod unrhyw anghydfodau fel arfer yn cael eu datrys ar lefel weithredol.

Ar gyfer rhai teuluoedd, mae angen rhoi'r camau gweithredu a amlinellir yn y CASPP yn gyflymach. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn sefyllfaoedd teuluol cymhleth ag achosion o esgeulustod a fu'n digwydd am gyfnod hir. Mae angen i bartneriaid gydweithio mewn modd cyson i sicrhau camau gweithredu mesuradwy sy'n gwella canlyniadau i blant sy'n byw o dan yr amgylchiadau hyn. Mae angen cyfarwyddyd goruchwylio clir yn yr heddlu er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau cam-drin plant yn amserol ac yn effeithiol a'u bod yn blaenoriaethu'r holl faterion diogelu sy'n effeithio ar y canlyniadau i'r plant.

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae tystiolaeth bod timau CAMHS yn gweithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr amlasiantaethol i ddiogelu plant ac i ymgysylltu â nhw. Mae'n werth nodi bod presenoldeb uwch-ymarferwyr CAMHS â chefndir ym maes gwaith cymdeithasol wedi cyfoethogi dynameg a threfniadau cydweithio amlasiantaethol y timau yn sylweddol. Mewn un enghraifft, llwyddodd ysgol i gysylltu â CAMHS i gael cyngor am blentyn a oedd yn hunan-niweidio, gan fwrw ati wedyn i ddatblygu cynllun rheoli risg ar y cyd. Gwelsom enghreifftiau o CAMHS yn gwneud ymdrechion parhaus i ymgysylltu â phlant, gan gynnwys drwy gynnig ymweld â'r plentyn yn yr ysgol, os oedd y plentyn yn teimlo'n fwy cyfforddus â'r lleoliad hwn.

Roedd gwasanaeth amenedigol y bwrdd iechyd yn gadarn. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu mewn ffordd gydweithredol ag amrywiaeth o asiantaethau, disgyblaethau mewnol a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Gofal Cymdeithasol. Mae'r dull rhagweithiol a ddefnyddir i drafod achosion cymhleth yn ystod cyfarfodydd yn amlygu ymrwymiad y gwasanaeth i strategaethau gofal cynhwysfawr a chynhwysol.

**Addysg**

Mae arferion gweithio cadarn ar waith rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau plant sy'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i gynllunio, gweithredu ac adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant agored i

niwed ym Mhowys. Caiff hyn ei gefnogi'n effeithiol drwy gyfarfodydd a gynhelir bob tymor gan y Tîm o Amgylch y Clwstwr (TAC) lle rhoddir cyfle i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol fynychu digwyddiad ar ffurf gweithdy i drafod materion cyffredin ac i gytuno ar ymyriadau a chymorth. Fel arfer, ceir lefelau presenoldeb da yn y cyfarfodydd hyn gan staff addysg, CAMHS, y gwasanaeth nyrsys ysgol, Gyrfaoedd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Ieuenctid.

Pan gânt wahoddiad, mae ysgolion yn mynychu cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant ac yn gwneud cyfraniad llawn atynt. Caiff data ar bresenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad y plentyn eu rhannu mewn adroddiadau ysgol. Mae'r cyswllt rhwng rhieni ac ysgolion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol sydd o fudd wrth helpu i gynllunio gofal a chymorth i'r disgyblion. Mae ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd diogelu eu disgyblion ac yn cynnig amrywiaeth o gymorth pwrpasol. Er enghraifft, pennu oedolyn y gellir ymddiried ynddo i'r plant gysylltu ag ef, rhaglenni ymyriadau penodol a threfnu ystafelloedd ar gyfer ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cadw cofnodion ysgol priodol, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd addas pan fydd plentyn yn symud ysgol.

**Heddlu Dyfed Powys**

Mae staff yr heddlu yn cyfrannu'n effeithiol at gynadleddau amddiffyn plant ac yn darparu adroddiadau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau amlasiantaethol. Ond nid yw staff yr heddlu wedi cael hyfforddiant ar y dull Arwyddion Diogelwch a ddefnyddir gan gynadleddau ym Mhowys.

**Gwasanaethau Plant**

Caiff cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth eu harwain a'u rhoi ar waith mewn modd cadarnhaol gan y gwasanaethau plant. Gwelsom gydberthnasau gwaith da ar waith rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cymorth y gwasanaethau plant wrth ymdrin â rhai o'u problemau eu hunain, gan gynnwys deall sut mae eu profiadau niweidiol eu hunain yn effeithio ar eu gallu i rianta. Clywsom hefyd am anawsterau cyfathrebu a oedd yn codi weithiau ac am effaith andwyol newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol.

Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ran hanfodol i'w chwarae wrth oruchwylio ansawdd ymarfer ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth herio unrhyw achosion o oedi pan fo angen. Maent yn rhoi blaenoriaeth i ymweld â phlant cyn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (CLA), gan feithrin cydberthnasau ystyrlon a chyson â nhw. Maent yn ymgynghori â'r rhieni ym mhob achos cyn cynnal cynadleddau cychwynnol a chynadleddau adolygu.

Gwelsom, ar y cyfan, fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a rhoi cymorth o ansawdd da i blant a theuluoedd ym Mhowys er gwaethaf yr heriau daearyddol. Rhannwyd enghreifftiau cadarnhaol o ganlyniadau da yn deillio o'r gwaith hwn. Mae

partneriaid y trydydd sector yn glir ac yn hyderus yn eu rolau ond maent yn teimlo y gellid gwella eu proffil mewn perthynas â help cynnar.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Oherwydd ei leoliad daearyddol, mae plant ym Mhowys yn aml yn gorfod defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ar draws ffiniau. Gall y gwahanol Systemau Rheoli Gwybodaeth sydd ar waith beri risgiau sy'n gysylltiedig â chyfleu gwybodaeth am faterion diogelu. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn cydnabod y risgiau hyn, ynghyd â'r strategaethau lliniaru cyfatebol, yng nghynllun gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu (SMM) a'r Cynllun Rheoli Risgiau.

**Heddlu Dyfed Powys**

Nid yw goruchwylwyr yn cofnodi adolygiadau o ymchwiliadau mewn modd cyson nac yn rhoi cyfarwyddyd clir ar flaenoriaethau ymchwilio a diogelu. Nid ydynt bob amser yn gweithredu i uwchgyfeirio newidiadau mewn risgiau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt. Ni chaiff cyfarfodydd strategaeth adolygiadau bob amser eu cynnal mewn modd amserol. O ganlyniad, gall rhai ymchwiliadau gymryd yn rhy hir, ac nid yw'r ymchwilwyr bob amser yn rhoi ystyriaeth lawn i'r canlyniadau tymor hir i blant.

Ceir anghysondeb yn y ffordd y mae ymchwilwyr yn cofnodi gwybodaeth ar gyfer y cod ymarfer i ddioddefwyr (VCOP) gan gynnwys asesiad o anghenion y dioddefwr a hysbysu'r plentyn am ganlyniad yr ymchwiliad.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion dyblyg ar gyfer plant ac aelodau o deuluoedd ar system yr heddlu. Mae angen nodi'r rhain a'u cysoni er mwyn sicrhau bod gan yr heddlu ddealltwriaeth glir o'r ffactorau bregusrwydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r bobl hyn.

**Gwasanaethau Plant**

Ni chaiff cofnodion o gyfarfodydd amddiffyn plant, fel cofnodion o gynadleddau a chyfarfodydd grŵp craidd, eu rhannu'n gyson â rhieni a phartneriaid allweddol. Mae hyn yn golygu na fydd yr asiantaethau o bosibl yn cael gwybodaeth allweddol i'w galluogi i ddiogelu a chefnogi plant a theuluoedd.

Mae'r grwpiau craidd yn rhoi diweddariadau rheolaidd er mwyn gwerthuso cynnydd yn erbyn cynlluniau plant, ond ceir anghysondeb yn hyn o beth. Mae angen i'r cyswllt rhwng risg a diogelwch fod yn fwy amlwg, ac i gynlluniau fesur cynnydd yn hytrach na'r gwasanaethau a ddarperir.

Caiff y dull Arwyddion Diogelwch ei gydnabod a'i ddefnyddio'n effeithiol gan ymarferwyr ac asiantaethau partner, ond wrth i weithwyr cymdeithasol sydd newydd

gymhwyso gael eu penodi, gellid manteisio ar y cyfle i sicrhau y caiff y model ei roi ar waith yn ymarferol.

## 2.4 Atal

**Trefniadau Partneriaeth**

**Cryfderau**

Yn y cyd-destun presennol o alw cynyddol, mae'n anodd i bob asiantaeth flaenoriaethu'r agenda ataliol mewn ffordd sy'n lleihau'r angen am ofal a chymorth mwy ffurfiol. Er gwaethaf hyn, mae llawer o blant ym Mhowys yn cael budd o help cynnar ac mae cynlluniau yn dangos tystiolaeth o amrywiaeth eang o wasanaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion plant.

Ceir cydberthnasau da rhwng ymarferwyr cyswllt cyntaf y gwasanaethau plant a'u partneriaid, a cheir rhyngwyneb rheolaidd fel rhan o weithdrefnau amddiffyn plant. Gwelsom fod ystyriaeth gyffredinol yn cael ei rhoi i nodi anghenion plant ac oedolion eraill sy'n wynebu risg y gallai'r achos effeithio arnynt, fel brodyr a chwiorydd a/neu'r plant hynny mewn cysylltiad ag unigolion yr honnir eu bod yn cam-drin plant.

Weithiau, gall argaeledd partneriaid fod yn her. Mae angen rhagor o waith i sicrhau cydymffurfiaeth gyson â'r disgwyliadau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, ac i sicrhau y caiff yr atgyfeiriwr wahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaethau a/neu gyfarfodydd strategaeth. Yn yr un modd, dylid bob amser wahodd ymarferwyr ym maes addysg i gyfrannu at drafodaethau strategaeth os ydynt wedi gweithio, neu os ydynt yn gweithio, gyda'r plentyn.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Er gwaethaf amrywiaeth o wasanaethau ataliol gwerthfawr, clywsom safbwyntiau cymysg am y trefniadau ar gyfer cydgysylltu'r gwasanaethau hyn. Rydym o'r farn y gallai'r trefniadau ar gyfer help cynnar fod yn gliriach, yn symlach ac yn fwy cyson ledled Powys, ond rydym ar ddeall fod rhaglen waith yn mynd rhagddi yn hyn o beth.

Roedd bylchau dadansoddi mewn rhai ffeiliau mewn perthynas â meysydd asesu penodol a phwysig. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth gudd, cymhelliant rhieni i newid, gwahanol anghenion brodyr a chwiorydd, ac effaith niwed tymor hir a niwed cronig. O ganlyniad, mewn rhai achosion, nid oedd anghenion unigol brodyr a chwiorydd yn cael eu hystyried mewn modd amserol, ac mewn achosion eraill, ni chafodd y risg ailatgyfeirio ei rheoli'n ddigonol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd cynlluniau plant yn cael eu hadolygu na'u diweddaru mewn ymateb i ddigwyddiadau pellach. O ganlyniad, mae cyfle yn cael ei golli i adolygu'r risgiau i blant ac i ddiweddaru'r CASPP yn unol â hynny. Yn achos rhai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso am gyfnod hir, mae'r gwaith cynllunio a'r ymyriadau yn aneffeithiol ar draws asiantaethau, ac ni cheir digon o ffocws ar ddiogelwch a llesiant y plentyn.

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae staff y bwrdd iechyd yn defnyddio'r dull Arwyddion Diogelwch i lunio adroddiadau cynadleddau ac yn ystod sesiynau goruchwylio diogelu. Maent o'r farn fod y drefn hon yn cefnogi asesiadau iechyd cyfannol er mwyn nodi anghenion iechyd emosiynol a chorfforol, yn ogystal â dymuniadau a theimladau.

Cynhelir cyfarfodydd cyn-geni rhwng y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau gofal iechyd yn unol â'r llwybr rhanbarthol. Er mwyn hwyluso'r trefniadau cyfathrebu, mae gweithiwr cymdeithasol cyn-geni arbenigol a bydwraig diogelu arweiniol yn mynychu'r cyfarfodydd er mwyn cynnig elfen oruchwylio ychwanegol.

Lle ceir risgiau ehangach, ceir tystiolaeth i gefnogi'r ymdrechion o ran rheoli risgiau a gwaith ataliol. Er enghraifft, Cam-drin Domestig, Llinellau Cyffuriau a chysylltiadau â throseddau cyfundrefnol difrifol.

**Heddlu Dyfed Powys**

Gwelsom fod staff lleol yn gweithio'n effeithiol â sefydliadau eraill i atal troseddau ac i leihau'r risgiau i blant a theuluoedd. Mae'r aelodau hyn o staff yn meddu ar wybodaeth helaeth am eu cymunedau, ac yn gwybod pa blant lleol sy'n wynebu risg. Fel rhan o fenter ‘Intact’ yr heddlu, mae'r heddlu a sefydliadau eraill yn cydweithio i atal ac amharu ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau.

**Addysg**

Mae disgyblion yn teimlo bod eu hysgolion yn gwrando arnynt a bod ganddynt lais cryf. Caiff disgyblion sy'n agored i niwed eu cefnogi'n effeithiol i chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Cânt eu hannog i ymuno â chlybiau ac maent yn aml yn cael eu dewis fel swyddogion neu genhadon. Gwneir defnydd da o broffil un dudalen i sicrhau y gall disgyblion ddylanwadu ar y ffordd y caiff eu cymorth ei ddylunio. Yn yr enghreifftiau lle ceir yr ymarfer mwyaf effeithiol, mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt ar gael i'r disgyblion yn yr ysgol a gallant droi at yr oedolion hynny i gael cyngor a chymorth.

Mae bron pob ysgol yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i helpu disgyblion â phroblemau gorbryder neu ddicter i ddiwallu eu hanghenion unigol. Lle ceir ymarfer effeithiol, mae gan ysgolion gwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda sy'n addysgu pwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant emosiynol cadarn i'r disgyblion. Mae hyn yn hwyluso lleoliadau mewn ysgolion a gall helpu i osgoi achosion lle y caiff disgyblion eu gwahardd.

Ceir tystiolaeth bod ysgolion yn rhoi cymorth cadarn i deuluoedd, gyda llawer ohonynt yn cyflogi swyddogion cyswllt teulu. Mae ysgolion yn cynnig amrywiaeth eang o ymyriadau buddiol i blant a theuluoedd er mwyn helpu i gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys help ymarferol fel dosbarthiadau rhianta, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chymorth i gwblhau ffurflenni. Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod prosesau priodol ar waith i ymgynghori â rhieni am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac ar eu plant.

Caiff gwaith arloesol ei arwain gan y Tîm Seicoleg Addysgol i helpu disgyblion agored i niwed mewn ysgolion, gan gynnwys plant ag anawsterau niwroamrywiaeth, disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), a thrawma. Yn ogystal, mae'r gwaith i ddatblygu Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i ddisgyblion dieiriau yn fuddiol iawn. Mae bron pob ysgol yn cael cyngor defnyddiol ac amserol gan staff cyswllt cyntaf y gwasanaethau cymdeithasol.

**Gwasanaethau Plant**

Nid oes rhestrau aros ar gyfer timau'r gwasanaethau plant ac er gwaethaf cyd-destun o gynnydd o ran nifer yr atgyfeiriadau a'u cymhlethdod, mae'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y gwelliannau a wnaed gan yr awdurdod yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Clywsom am y cymorth a roddwyd gan weithwyr llesiant, sy'n cefnogi ymarfer gwaith cymdeithasol drwy waith uniongyrchol i ddad-ddwysáu anghenion. Roedd sawl enghraifft lle roedd cymorth rhianta, ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac ymyriadau argyfwng i'w gweld o fewn cynlluniau gofal. Roedd ymarferwyr yn ystyried anghenion unigol y plant ac yn monitro achosion lle roedd dynameg deuluol gymhleth.

Er gwaethaf y galw ar y gwasanaeth, mae'r dangosyddion perfformiad mewn perthynas â dyletswyddau statudol fel cynnal cynadleddau ac ymweliadau amddiffyn plant amserol yn dda ar y cyfan. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Awst 2023, mae'r perfformiad mewn perthynas â nifer yr ymholiadau adran 47 a gaiff eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol wedi gwella'n gyson o isafbwynt o 46% ym mis Ebrill 2023 ar hyd llwybr ar i fyny a gyrhaeddodd dros 80% ar gyfer pob mis arall. Er ei bod hi'n galonogol nodi bod y sefyllfa yn gwella, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cynnal y gwelliannau a wnaed mewn perthynas â pherfformiad yn y maes hwn yn gyson.

### Yr hyn y mae angen ei wella

#### Heddlu Dyfed Powys

Roedd anghysondeb o ran gwybodaeth rheolwyr yr heddlu mewn perthynas â chael gafael ar wybodaeth am berfformiad ym maes amddiffyn plant a defnyddio'r wybodaeth honno. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r newid a wnaed i systemau gwybodaeth yr heddlu yn ddiweddar. Ac mae'r heddlu hefyd yn cyflwyno system newydd a fydd yn storio cofnodion yn y cwmwl. O ganlyniad, nid yw'r dulliau blaenorol a ddefnyddiwyd i gael gafael ar wybodaeth yn gweithio mwyach. Nid yw pob aelod o staff yn gwybod sut i ddefnyddio systemau gwybodaeth yr heddlu i gefnogi gwaith cynllunio gweithredol. Er enghraifft, er mwyn deall bregusrwydd plentyn ar ôl digwyddiadau lefel isel mynych ac er mwyn cynllunio ymyriadau amlasiantaethol i leihau'r risg hon.

#### Gwasanaethau Plant

Clywsom y gall fod heriau o ran bwrw ati ag atgyfeiriadau a ystyrir gan y gwasanaeth yn atgyfeiriadau blaenoriaeth canolig, gan ei fod yn rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau brys. Mae angen dull gweithredu darbodus mewn perthynas â dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir. Dylai uwch-reolwyr barhau i adolygu'r adnoddau yn y gwasanaeth cyswllt cyntaf/gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn sicrhau bod capasiti digonol ar gael yn y tîm i ymateb yn gyson ac yn effeithiol mewn modd amserol ac i ddiwallu lefelau'r galw.

## Y camau nesaf

Ar ran y bartneriaeth, dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai hwn fod yn ymateb amlasiantaethol yn cynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Heddlu Dyfed Powys. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol. Dylai pennaeth y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i CIWLocalAuthority@gov.wales erbyn (dyddiad i'w gadarnhau gan y bydd 6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad). Bydd y datganiad hwn yn llywio'r llinellau ymholi mewn unrhyw weithgarwch ar y cyd neu weithgarwch asiantaeth unigol yn y dyfodol gan yr arolygiaethau.

## Methodoleg

#### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy edrych ar sampl o gofnodion asiantaethau ac olrhain trefniadau gofal a chymorth plant. Gwnaethom edrych ar sampl o ddeg ffeil achos ac olrhain chwech ohonynt.

Mae'r broses o olrhain cofnod plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn lle y bo'n briodol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda staff a chanolbwyntiodd dau grŵp o weithwyr proffesiynol ar y trefniadau gweithio a'r canlyniadau ar gyfer dwy ffeil a gafodd eu holrhain.

Gwnaethom ymweld â sampl bach o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, gan gynnal cyfarfodydd â'r pennaeth, yr arweinydd diogelu dynodedig a grwpiau o blant.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion ar draws asiantaethau gwahanol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a anfonwyd at yr arolygiaethau at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom anfon arolygon at staff gwasanaethau plant, sefydliadau yn y trydydd sector, ysgolion a phlant ac aelodau o deuluoedd.

Gwnaethom arsylwi ar gynadleddau amddiffyn plant, cyfarfod strategaeth cam-fanteisio ar blant ac ymarfer fel rhan o'n gweithgarwch arolygu.

Gwnaethom werthuso samplau o gynlluniau gwaith iechyd a llesiant ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ‘gwrando ar y dysgwr’ ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r arolygiaethau ddiolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.